# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ0383(FM) a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, 26 Ebrill 2005.

**At Peter Black:**

Yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 26 Ebrill bu ichi godi mater plastig wedi'i ailgylchu yn cael ei anfon i Tsiena er mwyn cael ei ailddefnyddio. Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn imi ymateb i'r pwynt hwnnw ac yr wyf yn ymddiheuro am yr oedi o ran gwneud hynny.

Hoffwn yn gyntaf gwestiynu'r rhagdybiaeth gyffredin bod cludo plastig i Tsiena yn niweidiol i'r amgylchedd. Cytunaf y byddai'n well i ddeunyddiau wedi'u hailgylchu gael eu defnyddio yn y wlad hon, yn agos at y pwynt casglu os yn bosibl a byddaf yn delio â'r ffyrdd yr ydym yn cefnogi hwn nes ymlaen. Fodd bynnag mae hefyd yn well i ddiwydiant gweithgynhyrchu Tsiena ddefnyddio deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu yn hytrach na deunyddiau crai ac mae dadansoddiad cylch bywyd yn dangos, hyd yn oed ar ôl cludo'r deunyddiau hynny o'r wlad hon, fod budd amgylcheddol o hyd. Yn ogystal â hynny mae argaeledd marchnad Tsiena wedi annog awdurdodau lleol yng Nghymru ac mewn llefydd eraill i gasglu plastig, y gellir diffyg marchnad yn y DU ar hyn o bryd wedi eu hatal rhag gwneud. Yr wyf yn gwerthfawrogi bod pryderon ynglŷn â'r safonau amgylcheddol crybwylledig sydd yn cael eu defnyddio yn Nhsiena. Fodd bynnag nid yw hynny o reidrwydd yn ganlyniad o ddefnyddio deunyddiau eilaidd ac mae'n rhaid i awdurdodau Tsiena ystyried hynny.

Derbyniaf ei bod yn well defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn lleol. Gobeithio mai un agwedd ar gasglu plastig ar gyfer marchnad Tsiena a marchnadoedd allforio eraill fydd i sicrhau defnyddwyr posibl yn y wlad hon fod ffynhonnell ddibynadwy o ddeunydd crai ac y bydd hwn yn eu hannog i osod prosesau i ddefnyddio'r deunydd hwnnw. Ar yr un pryd mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n cymryd camau i gefnogi'r defnydd o blastig wedi'i ailgylchu yn y wlad hon. Gyda gweinyddiaethau eraill y DU, yr ydym yn cyllido'r Rhaglen Gweithredu ar gyfer Gwastraff ac Adnoddau i gael gwared ar y rhwystrau i ddefnyddio deunyddiau eilaidd gan gynnwys plastig, ac i ddatblygu marchnadoedd a thechnolegau i gefnogi hyn. Yr ydym hefyd yn cyllido prosiect Creu Marchnadoedd Cymreig ar gyfer Deunydd Ailgylchu (CWMre) i wneud yr un peth yn benodol o fewn Cymru. Enghraifft ddiweddar o fusnes Cymru yn cael ei sefydlu i ddefnyddio plastig cymysg wedi'i ailgylchu yw Tempakerb yn Hirwaun. Mae cwmnïau eraill am sefydlu eu hunain yng Nghymru i gasglu a defnyddio plastigau amaethyddol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ailddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn lleol er mwyn cael y gwerth amgylcheddol ac economaidd mwyaf o gasglu'r deunyddiau hynny.

## Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ0389(FM) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, 26 Ebrill 2005.

**At Elin Jones:**

Cytunwyd yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 26 Ebrill 2005 y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch ceir ambiwlans yng Ngheredigion. Os gwelwch yn dda, derbyniwch fy ymddiheuriadau am yr oedi o ran fy ateb.

Mae gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gytundeb am saith darparwr gwasanaethau ceir fel rhan o'i threfniadau cytundebol gydag Ymddiriedolaeth yr Ysbyty ac mae'n adolygu'r math hwn o wasanaeth ar hyn o bryd. Os yw'r adolygiad yn dangos angen am gynydd yn nifer y ceir ambiwlans, byddai'r cynnydd hwnnw yn dibynnu ar Ymddiriedolaeth yr Ysbyty yn cytuno i gynyddu'r cyllid i'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Yr wyf yn gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa. Yr wyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn i'r Prif Weinidog er ei wybodaeth ef.